

Astudiaeth Achos

Cefnogi Dioddefwyr-Oroeswyr Trais A Cham-Drin Domestig Yn Ddiweddarach Mewn Bywyd

YMCHWILWYR

Sarah Wydall
Rebecca Zerk
Elize Freeman
Yr Athro Alan Clarke
Yr Athro John Williams

TROSOLWG

Mae ymchwil a gynhyrchwyd gan dîm Dewis Choice, prosiect dan adain Prifysgol Aberystwyth, yn herio ymatebion blaenorol i Drais a Cham-drin Domestig, a oedd yn tybio bod trais ar sail rhywedd yn digwydd i fenywod dan 45 oed yn unig. Roedd menter Dewis Choice yn gwella mynediad at gyfiawnder a lles i ddiodeffwyr-oroeswyr trais a cham-drin domestig hŷn ledled Cymru, drwy gyflwyno gwasanaeth cyfiawnder a llesiant unigryw wedi'i gynhyrchu ar y cyd, gan ddiogelu diodeffwyr-oroeswyr hŷn; mae hefyd wedi llywio darpariaeth a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol i ddiodeffwyr-oroeswyr ledled y DU, ac wedi llywio canllawiau ac ymgyrchoedd cenedlaethol yng Nghymru ar ddiogelu ac amddiffyn pobl hŷn.



YR HER

Mae trais a cham-drin domestig yn ddiweddarach mewn bywyd yn cael ei gwmpasu gan y term cyffredinol 'cam-drin pobl hŷn' sy'n arwain at ymleiddio diodeffwyr-oroeswyr hŷn. Mae ymchwil Dewis Choice yn dangos bod y drafodaeth yn y cyd-destun hwn yn gallu bod yn oedraniaethol ac yn rhywiaethol, gan gyfrannu at ymatebion gwahaniaethol gan weithwyr proffesiynol.

Mae'n amlygu pwysigrwydd fframio niwed sylweddol fel trais a cham-drin domestig, yn hytrach na cham-drin pobl hŷn, er mwyn sicrhau cydraddoldeb cyfle, mynediad at gyfiawnder a gwell ansawdd bywyd i bobl sy'n 60 oed a hŷn.

YR ATEB

Dewis Choice, prosiect arloesol dan adain Prifysgol Aberystwyth, yw'r gwasanaeth penodol cyntaf yn y DU ar gyfer pobl hŷn sydd wedi profi trais a cham-drin domestig. Mae'r gwasanaeth yn darparu dewis gwybodus dan arweiniad cleientiaid yn ystod pob cam o'r daith i geisio cymorth a chyfiawnder, yn ystod digwyddiadau argyfwng, wrth gynllunio diogelwch ac yn ystod adferiad.

Mae menter Dewis Choice wedi cynhyrchu ymyrraeth ar lawr gwlad sydd wedi'i greu'n benodol gan y gymuned er mwyn cefnogi diodeffwyr hŷn sydd wedi gorosi trais a cham-drin domestig, fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus am gyfiawnder sifil, troseddol ac adferol, ac er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu trin yn wahanol ar sail oedran, rhywedd, rhywioldeb neu anabledd. Y gwaith ymchwil yw'r cyntaf o'i fath hefyd i gynnal astudiaeth hydredol ragolygol sy'n edrych ar y broses o wneud penderfyniadau yng nghyd-destun cam-drin domestig a thrais yn ddiweddarach mewn bywyd.

“ Mae [Dewis Choice] yn newid y byd ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol... Rwy'n gwerthfawrogi'n bersonol yr hyn rydych chi'n ei wneud i drawsnewid bywydau pobl hŷn a dyw hi ddim yn ormodiaith dweud eich bod yn achub bywydau hefyd. ”

COMISIYNYDD POBL HŷN CYMRU MIS CHWEFROR 2020

YR EFFAITH

IECHYD A LLES POBL

Mae Dewis Choice yn darparu gwasanaeth unigryw ledled Cymru, fel yr unig lwybr i bobl hŷn sy'n profi trais a cham-drin domestig. Mae'n mynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau trais a cham-drin domestig, ac yn gwella ymatebion sy'n ceisio cyfiawnder. Drwy hynny, mae'n lleihau'r risg o drais a cham-drin domestig a niwed yn y dyfodol, ac yn newid a gwella bywydau'r diodeffwyr-oroeswyr hŷn sy'n cael eu cefnogi.

YMARFERWYR A CHYFLENWI GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae Dewis Choice wedi llywio gwell prosesau darparu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus i ddiodeffwyr-oroeswyr trais a cham-drin domestig hŷn ledled y DU.

POLISI CYHOEDDUS, Y GYFRAITH A GWASANAETHAU

Mae Dewis Choice wedi cyfrannu at bwyllgorau, dogfennau ac ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru. Mae hefyd wedi llywio canllawiau ac ymarfer sy'n helpu i amddiffyn pobl hŷn rhag trais a cham-drin domestig.

